

Datganiad i'r wasg

22 Mehefin 2021

INFINITE YN LANSIO CANOLFAN YNNI AMLDECHNOLEG GYNTAF CYMRU I GYFLENWI PŴER YN UNIONGYRCHOL I'R GYMUNED

Mae'r cwmni ynni adnewyddadwy arloesol Infinite yn lansio ei ganolfan ynni gyntaf yn Ystâd Ddiwydiannol Rasa yn Ne Cymru. Bydd y cyfuniad o dyrbinau gwynt, systemau solar ffotofoltäig a storio batris yn darparu pŵer dibynadwy, cost-effeithlon a gwyrddach yn uniongyrchol i'r cwsmer.



Andrew Shaw o GE National ar y safle yn ffatri GS Yuasa yng Nglynebwy

Mae gwaith ar y safle'n mynd rhagddo'n chwim gyda'r cam cyntaf o ganolfan ynni integredig unigryw Infinite, sef gosod system solar pen tŷ 1MWh ar ffatri GS Yuasa, eisoes wedi'i gwblhau. Hefyd, mae cymeradwyaeth wedi'i rhoi ar gyfer adeiladu tyrbin gwynt a fydd yn cyflenwi trydan yn uniongyrchol i'r safle. Bydd y ganolfan ynni'n gysylltiedig â chynllun storio ynni gyda'i gynhwysydd batri ADEPT yn cyfuno'r defnydd o fatris asid plwm a lithiwm GS Yuasa, gan gynnig yr effeithlonrwydd a hyblygrwydd gorau wrth reoli pŵer ar draws micro-grid.

Meddai Andrew Crossman, Cyfarwyddwr, Infinite: "Mae'r Ganolfan Ynni GSCS yn cynrychioli newid sylweddol mewn perthynas â'r dosbarthiad datganoledig o ynni carbon isel ac adnewyddadwy. Nod cynllun Rasa yw rhannu manteision dull cynhyrchu amldechnoleg yn y gymuned gyfagos, gan ddarparu pŵer adnewyddadwy gostyngol a lleihau'r allyriadau CO2 yn yr ardal."

Ychwanegodd Shaun Gardner, Rheolwr Gyfarwyddwr, GS Yuasa Manufacturing UK Ltd: “Mae’r prosiect yn dod â nifer o fanteision i’n ffatri yng Nglynebwy ac Ystâd Ddiwydiannol ehangach Rasa. Mae’r cyfuniad unigryw o’n batris lithiwm ac asid plwm, a chynhyrchir y batris asid plwm ar y safle yn Ne Cymru, yn galluogi storio ynni gwyrddach, wedi’i gynhyrchu gan yr haul neu’r gwynt, i’w ddefnyddio’n ddiweddarach.”

Mae’r ganolfan yn rhan o’r prosiect Cynhyrchu, Storio, Defnyddio, Cyflenwi (GSCS) ac yn un o hyd at saith cynllun canolfan ynni leol yn Ne a Gorllewin Cymru i’w hariannu trwy grant gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Mae arian cyfatebol gwerth £5.5m wedi’i ddarparu gan bartner cyllid Infinite, sef Albion Community Power. Cyfanswm gwariant cyfalaf y cynlluniau yw £14.4m gyda Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn darparu £8.9m.

Meddai Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru: “Mae newid hinsawdd wrth wraidd ein penderfyniadau ac rydym wedi ymrwymo i gyflymu’r newid i system ynni carbon isel yng Nghymru. Bydd y Ganolfan Ynni GSCS, yn ogystal â chynlluniau ynni lleol eraill a ariennir gan yr UE â rôl bwysig wrth gymhell camau gweithredu tuag at ein huchelgais ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy i Gymru, trwy ddarparu manteision ynni cost-effeithiol, gwyrddach i fusnesau lleol a chymunedau ar draws De a Gorllewin Cymru.”

Meddai Marco Yu, Cyfarwyddwr Buddsoddi, Albion Community Power: “Mae gan Albion fwy nag 20 mlynedd o brofiad yn ariannu prosiectau ynni cynaliadwy ar draws y DU. Gwnaethom gefnogi tîm Infinite yng nghamau cynnar ei dwf ac rydym wedi’n gwefreiddio bod yn rhan o’i brosiectau arloesol, amldechnoleg diweddaraf sy’n arwain y ffordd o ran helpu busnesau lleol i ddatgarboneiddio a lleihau costau ynni wrth liniaru llwyth trydan y grid trydan.”

Ynghylch Infinite:

Sefydlwyd Infinite yn 2010 fel datblygwr ynni adnewyddadwy i greu cynlluniau pŵer gwynt masnachol i gleientiaid masnachol. Mae’r rhain yn cynnwys cynlluniau gwynt megis y ‘genhinen Bedr anferth’ yn y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant yn Ne Cymru - tyrbin gwynt 850kW yn cyflenwi hyd at 10 y cant o alw’r Bathdy Brenhinol. Mae Infinite wedi tyfu o ddatblygu portffolio o dyrbinau gwynt i ddarparu sawl cynllun system solar ffotofoltäig preswyl a masnachol. Erbyn hyn, mae’n arloesi canolfannau ynni adnewyddadwy amldechnoleg ar gyfer diwydiant ar draws y DU.

Cyswllt y cyfryngau: Gaenor Howells

gaenor@gaenorhowells.com www.infiniterenewables.com

